**Cyd-Bwyllgor ERW**
**Dydd Mawrth, 30ain Mawrth, 2021**
**Rhith-Gyfarfod**
**2.00 - 2.45 yp**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd E. Dole (Cadeirydd), Cyngor Sir Caerfyrddin

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn | Cyngor Sir Ceredigion |
| Y Cynghorydd Rosemarie Harris | Cyngor Sir Powys |
| Y Cynghorydd Jen Raynor (yn dirprwyo ar ran y Cynghorydd Rob Stewart) | Cyngor Abertawe |
| Y Cynghorydd Guy Woodham (yn dirprwyo ar ran y Cynghorydd David Simpson) | Cyngor Sir Penfro |
| | |
| Mr Richard Brown | Cyngor Sir Penfro |
| Mr Phil Roberts | Cyngor Abertawe |
| Dr Caroline Turner | Cyngor Sir Powys |
| Mrs Wendy Walters | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| | |
| Councillor Robert Smith | Cyngor Abertawe |
| Mr Jonathan Haswell | Cyngor Sir Penfro (ERW – Swyddog Adran S151) |
| Ms Elin Prysor | Cyngor Sir Ceredigion (ERW -Swyddog Monitro) |
| Mr Gareth Morgans | Cyngor Sir Caerfyrddin (Cyfarwyddwr Arweiniol) |
| Mr Stephen Richards-Downes | Cyngor Sir Penfro (Dirprwy Gyfarwyddwr Arweiniol) |
| Ms Helen Morgan-Rees | Cyngor Abertawe |
| Mr Greg Morgan | Prif Swyddog ERW |
| Mr Ian Altman | Prif Swyddog ERW |
| Mr Ceri Davies | Cyngor Sir Penfro (ERW - Adnoddau Dynol) |
| Ms Helen Lewis | Cyngor Sir Penfro (ERW - Adnoddau Dynol) |
| Ms Ruth Lee | Rheolwr Cymorth Busnes ERW |
| Ms Natalie Chambers | Prif Gyfrifydd ERW |
| Mr Alex Ingram | Llywodraeth Cymru |
| Ms Karen Newby-Jones | ESTYN |

| | |
|---|---|
| Mrs Llinos Jenkins | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Mrs Michelle Evans Thomas | Cyngor Sir Caerfyrddin (Gwasanaethau Democrataidd) |
| Mrs Jessica Laimann | Cyngor Sir Caerfyrddin (Gwasanaethau Democrataidd) |
| Ms Emma Bryer | Cyngor Sir Caerfyrddin (Gwasanaethau Democrataidd) |
| Ms Siwan Rees | Cyngor Sir Caerfyrddin (Cyfieithu) |
| Mr Jonney Corner | Cyngor Sir Caerfyrddin (Cymorth Technegol) |

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd David Simpson (Cyngor Sir Penfro), y Cynghorydd Rob Stewart (Cyngor Abertawe), y Cynghorydd Eifion Evans (Cyngor Sir Ceredigion) a Mark Campion (Estyn). Roedd y Cynghorydd Jen Raynor (Cyngor Abertawe) a'r Cynghorydd Guy Woodham (Cyngor Sir Penfro) yn bresennol yn y cyfarfod fel dirprwyon.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| E. ap Gwynn | 7 - Llythyr Ceredigion | Awdur y llythyr |

## 3. LLOFNODI YN COFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 9 CHWEFROR 2021

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Cyd-bwyllgor ERW oedd wedi ei gynnal ar 9 Chwefror 2021 gan eu bod yn gywir.**

## 4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

**Cofnod Rhif 7**
Rhoddwyd gwybod i'r cyfarfod bod Cyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Abertawe wedi diddymu eu rhybudd i adael y Consortiwm dros dro er mwyn i'r dyddiad gweithredu newydd gael ei ymestyn i 31 Awst 2021.

## 5. CYLLIDEB ERW 2021-22 (EBRILL - AWST)

Cafodd y Cyd-bwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y gyllideb ddrafft ar gyfer mis Ebrill i fis Awst 2021, yn ymwneud â'r meysydd canlynol:

- Amlinelliad o'r gyllideb ddrafft ar gyfer 1 Ebrill i 31 Awst 2021;
- Amlinelliad o Gyfraniadau Awdurdodau Lleol ar gyfer 1 Ebrill i 31 Awst 2021;
- Amlinelliad o Ddyraniadau Grant sy'n ofynnol gan Awdurdodau Lleol i ERW ar gyfer 1 Ebrill i 31 Awst 2021;
- Amlinelliad o'r risgiau ar gyfer 1 Ebrill i 31 Awst 2021.

Dywedwyd wrth y Cyd-bwyllgor nad oedd unrhyw gynnydd yng Nghyfraniadau Awdurdodau Lleol wedi'i ychwanegu i gyfrif am y ffaith bod Cyngor Sir Ceredigion yn tynnu yn ôl yn unol â'r dull gweithredu ar ôl i CNPT dynnu'n ôl, lle ariannwyd y diffyg gan gyllid na ddefnyddiwyd a oedd wedi ei gario ymlaen.

O ran cyllid grant, rhoddwyd gwybod i'r cyfarfod y byddai cyllid Grant Datblygu Disgyblion a Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol yn cael ei ddadgyfuno i bob Awdurdod Cyfansoddol ac na fyddai'n cael ei dalu i ERW yn uniongyrchol fel y gwnaed mewn blynyddoedd blaenorol. Er mwyn ariannu ERW a chaniatáu i'r Cynllun Busnes gael ei gyflawni tan 31 Awst 2021, byddai angen i bob Awdurdod Lleol drosglwyddo cyfran o'r arian grant a dderbyniwyd i ERW fel y nodir yn yr adroddiad. Roedd yr un peth yn wir am y Grant Datblygu Disgyblion Plant sy'n Derbyn Gofal, ar yr amod bod y cyllid yn cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Roedd risgiau yn parhau i gael eu nodi o ran dibyniaeth ar grantiau, ôl troed ERW yn y dyfodol a chronfeydd wrth gefn sy'n lleihau.

Mewn ymateb i ymholiad, rhoddwyd gwybod i'r cyfarfod yr amcangyfrifwyd risgiau'n ymwneud â chyfleoedd staffio/diswyddiadau posibl ond na fyddai'r rhain yn effeithio ar y gyllideb ddrafft ar gyfer Ebrill i Awst 2021.

**PENDERFYNWYD**

**5.1. Nodi'r rhagdybiaethau a'r amcangyfrifon a wnaed wrth lunio'r gyllideb amlinellol ar gyfer 1 Ebrill i 31 Awst 2021;**

**5.2. Nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r ansicrwydd ynghylch ERW o 1 Medi 2021 ymlaen;**

**5.3. Cymeradwyo'r cyllidebau amlinellol ar gyfer 1 Ebrill i 31 Awst 2021;**

**5.4. Cymeradwyo Cyfraniadau'r Awdurdod Lleol ar gyfer 1 Ebrill i 31 Awst 2021;**

**5.5. Cymeradwyo'r defnydd o gronfeydd wrth gefn a chyllid na ddefnyddiwyd a oedd wedi ei gario ymlaen i gefnogi cyllideb amlinellol y tîm canolog craidd ar gyfer 1 Ebrill i 31 Awst 2021;**

**5.6. Cymeradwyo trosglwyddo Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol, gan gynnwys Grant Gwella Addysg, a chyllid Grant Datblygu Disgyblion o bob Awdurdod Lleol i ERW fel yr amlinellir yn yr adroddiad;**

**5.7. Cymeradwyo trosglwyddo cyllid Grant Datblygu Disgyblion Plant sy'n Derbyn Gofal o bob Awdurdod Lleol i ERW fel yr amlinellir yn yr adroddiad;**

**5.8. Awdurdodi Swyddog Adran 151 ERW i wneud diwygiadau i'r gyllideb amlinellol wrth i ragdybiaethau ac amcangyfrifon gael eu cadarnhau.**

## 6. LLYTHYR CASTELL NEDD PORT TALBOT- PWRCASU GWASANAETHAU

Ystyriodd y Cyd-bwyllgor lythyr gan Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (CNPT). Dywedwyd wrth y Cyd-bwyllgor fod y llythyr yn gofyn am barhau i ddarparu'r gwasanaethau presennol i ysgolion CNPT tan 31 Mawrth 2022 neu tan ddyddiad diddymu'r consortiwm presennol, os yw'n gynharach.

Rhoddwyd gwybod i'r cyfarfod nad oedd yr Amrywiad i'r Cytundeb Cyfreithiol wedi'i lofnodi eto a bod nodiadau atgoffa wedi'u hanfon at yr Awdurdodau Cyfansoddol. Dim ond ar ôl cwblhau hyn y gallai gwaith ar baratoi cytundeb cyfreithiol ar wahân rhwng CNPT a gweddill yr Awdurdodau Cyfansoddol ddechrau.

**PENDERFYNWYD**

**6.1. Ymestyn y trefniadau presennol i roi mynediad i ysgolion Castell-nedd Port Talbot at wasanaethau y cytunwyd arnynt tan 31 Mawrth 2022 (neu ar ôl diddymu'r consortiwm presennol, os yn gynharach) ar y telerau presennol ac yn amodol ar gytundeb contractiol ffurfiol;**

**6.2. Sefydlu llinellau cyfathrebu clir gyda'r consortiwm dros y cyfnod nesaf, yn enwedig o ran ei atebolrwydd ariannol sy'n gysylltiedig â diddymu'r trefniadau presennol.**

## 7. LLYTHYR CEREDIGION- PWRCASU GWASANAETHAU

[SYLWER: Roedd y Cynghorydd E. ap Gwynn wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach ac nid oedd yn bresennol tra oedd yr eitem yn cael ei thrafod.]

Ystyriodd y Cyd-bwyllgor lythyr gan y Cynghorydd Ellen ap Gwynn, Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion, ynghylch darparu gwasanaethau i ysgolion Cyngor Sir Ceredigion. Rhoddwyd gwybod i'r cyfarfod y byddai Cyngor Sir Ceredigion yn gadael Consortiwm ERW ar 31 Mawrth 2021 a'i bod wedi gofyn am ymestyn y ddarpariaeth o raglenni a gwasanaethau penodol tan 31Awst 2021.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd ap Gwynn am ei chyfraniadau at y Cyd-bwyllgor.

**PENDERFYNWYD**

**7.1. Cytuno i ddarparu rhaglenni a gwasanaethau i ysgolion Cyngor Sir Ceredigion fel y nodir yn yr adroddiad tan 31 Awst 2021;**

**7.2. Datblygu cytundeb contractiol ffurfiol i gytuno ar delerau ac amodau darparu'r gwasanaethau dros dro i Gyngor Sir Ceredigion.**

## 8. LES Y LLWYFAN

Rhoddodd y Cyd-bwyllgor ystyriaeth i adroddiad ynghylch cytundeb prydles ar swyddfa yn y Llwyfan. Rhoddwyd gwybod y byddai angen rhoi hysbysiad cyn 30 Ebrill 2021 i derfynu'r cytundeb prydlesu presennol a gadael y swyddfeydd erbyn 31 Hydref 2021.

Rhoddwyd gwybod i'r cyfarfod y byddai angen i'r bartneriaeth gael safle gyda nifer cyfyngedig o swyddfeydd, cyfeiriad post cofrestredig a lle storio i gyflawni ei gweithgareddau o 1 Medi 2021 ymlaen. Cafwyd dyfynbris gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant i brydlesu swyddfeydd llai yn Y Llwyfan o 1 Medi 2021, ond dim ond pe bai'r brydles bresennol yn cael ei dwyn ymlaen yn hytrach na'i therfynu erbyn 31 Hydref 2021 y gellid sicrhau bod y swyddfeydd ar gael. Byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r bartneriaeth newydd barhau â'r brydles bresennol a'i hysgwyddo o 1 Medi 2021.

Rhoddwyd gwybod i'r cyfarfod fod y brydles bresennol yn cael ei chynnal gan Gyngor Sir Powys ar ran ERW. Gan y byddai Cyngor Sir Powys yn gadael y bartneriaeth erbyn 31 Awst 2021, byddai angen trosglwyddo'r brydles i Awdurdod Lleol arall.

**PENDERFYNWYD bod Arweinwyr yr Awdurdodau Cyfansoddol yn trafod y trefniadau prydlesu ymhellach cyn dyddiad cau'r hysbysiad ar 30 Ebrill 2021.**

**9. TREFNIADAU CYFREITHIOL A MONITRO EBRILL - AWST 2021.**

Ystyriodd y Cyd-bwyllgor adroddiad ar ddarparu trefniadau gwasanaeth Cyfreithiol a Monitro rhwng 1 Ebrill a 31 Awst 2021.

Derbyniwyd cynnig i benodi Cyngor Abertawe fel yr Awdurdod Arweiniol sy'n gyfrifol am Wasanaethau Swyddogion Cyfreithiol a Monitro am y cyfnod a bennwyd.

Diolchodd y Cadeirydd i Elin Prysor am ei chefnogaeth fel Swyddog Monitro y Cyd-bwyllgor.

**PENDERFYNWYD penodi Cyngor Abertawe fel yr Awdurdod Arweiniol sy'n gyfrifol am Wasanaethau Swyddogion Cyfreithiol a Monitro o 1 Ebrill i 31 Awst 2021.**

**10. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG, BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYS YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972**

Rhoddwyd gwybod i'r cyfarfod bod Cyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Abertawe i wedi diddymu eu rhybudd i adael y Consortiwm dros dro. Byddai'r bartneriaeth bresennol yn parhau o 1 Ebrill i 31 Awst 2021 gyda Chyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Sir Powys, Cyngor Sir Penfro a Chyngor Abertawe, i hwyluso'r gwaith o weithredu model partneriaeth newydd o 1 Medi 2021.

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**